Polisi Parcio i'r Anabl

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council
a better place to live and work

CYNGOR BWRDEISDREF SIROL BLAENAU GWENT

POLISI PARCIO I'R ANABL

Cyflwyniad

Mae gan Gyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent ymrwymiad i hyrwyddo Mynediad i'r Anabl a darparu cyfle cyfartal i bobl anabl yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Mae'r Cyngor yn anelu i sicrhau fod pobl anabl a gofalwyr yn cael mynediad i wasanaethau yn yr un ffordd â phobl heb fod yn anabl.

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i'r Cyngor i wahaniaethu yn erbyn pobl anabl wrth wneud ei swyddogaethau.

Nod y polisi

Nod y polisi yw diogelu hawliau pobl anabl a rhoi mynediad iddynt i **faeau anabl** pan maent yn ymweld neu'n gweithio mewn adeiladau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt. Fe'i hanelwyd hefyd i roi diwedd i **barcio anystyriol e.e. parcio ar balmentydd neu o flaen cwrb isel.** Mae'r math hwn o barcio anystyriol yn effeithio ar ddefnyddwyr cadair olwyn, pobl ddall gyda chŵn cymorth a phobl anabl eraill a hefyd ar rieni gyda phlant ifanc mewn cadeiriau gwthio.

Bydd y polisi hwn yn cychwyn gweithdrefnau fydd yn gweithredu yn erbyn defnydd amhriodol o faeau parcio dynodedig y Cyngor, lle maent yn bodoli, a pharcio anystyriol yn safleoedd dilynol y Cyngor:

- Y Ganolfan Ddinesig
- Llys Einion
- Monusk
- Tŷ Baldwin
- Tŷ'r Ŵyl
- Stryd y Bont
- Holl swyddfeydd eraill y Gwasanaethau Cymdeithasol, Canolfannau Dydd, Uned Hyfforddi, Cartrefi Preswyl ac ati (lle mae baeau'n bodoli)
- Canolfannau Gweithredu Dysgu
- Swyddfeydd Ardal
- Canolfannau Hamdden
- Theatrau (Metropole, Beaufort, Abertyleri)
- Swyddfa Gofrestru, Tredegar
- Canolfan Adnoddau Busnes, Tafarnaubach
- Unrhyw Uned Fusnes sydd â baeau anabl.

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddarparu mynediad i wasanaethau ar gyfer aelodau'r cyhoedd, Aelodau Etholedig a mynediad i waith i staff sydd â Bathodyn Glas i'r anabl.

- Targedwyd y polisi hwn at faeau Anabl nad oes hysbysiad gorchymyn swyddogol arnynt ac nad ydynt, felly, dan reolaeth yr Heddlu, Warden Traffig neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.
- Er mwyn i Staff ac Aelodau Etholedig barcio yn y baeau parcio dynodedig byddai angen iddynt arddangos Bathodyn

Glas swyddogol fel y byddai angen iddynt wneud mewn bae i'r anabl a gaiff ei reoli gan yr Heddlu/warden neu fod â thocyn parcio staff a roddwyd gan y Cyngor pan ddatgelid a derbyn tystiolaeth feddygol.

- Mae parcio anystyriol hefyd yn fater sydd angen ei drin a bydd yn disgyn dan yr un weithdrefn adrodd a chamddefnyddio baeau Anabl.

Cyfrifoldeb Staff ac Aelodau Etholedig

- Disgwylir i holl staff ac Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeisdref Blaenau Gwent sicrhau y caiff Baeau Anabl eu cadw'n rhydd ar gyfer defnydd aelodau anabl o'r cyhoedd a staff ac nad ydynt yn parcio'n anystyriol, yn unol ag ysbryd Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005.
- Cynhwysir cyfrifoldeb allweddol ar gyfer yr holl staff ym mhob disgrifiad swydd fel a ganlyn:

  "Cydymffurfio ag egwyddorion y Polisi Cydraddoldeb Corfforaethol a sicrhau ymrwymiad i arfer gwrthwahaniaethol.

- Os yw staff yn gwybod fod cydweithwyr yn parcio mewn baeau neu'n parcio mewn ffordd anystyriol, yna dylent hysbysu'r Uwch Swyddog yn yr adeilad dan sylw fel y medrir cymryd camau priodol.

Gweithredu yng nghyswllt diffyg cydymffurfiaeth

- Bydd yr achos cyntaf o fethu dilyn y polisi hwn yn arwain at anfon neges e-bost neu lythyr i'r unigolyn gan eu hysbysu

am eu diffyg cydymffurfiaeth ac na fydd y Cyngor yn goddef hynny.

- Am unrhyw doriad dilynol o'r polisi, caiff yr unigolyn ei drin dan Weithdrefn Ddisgyblaethol y Cyngor, ac ar gyfer Aelodau Etholedig, Cod Ymddygiad yr Aelodau.

Adolygu'r polisi

Caiff y polisi hwn ei adolygu'n flynyddol yn unol ag adroddiad blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd.

Is-adran Adnoddau Dynol

Dyddiad Cymeradwyo
Dyddiad Adolygu